

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	5ed o Ebrill 2017
TEITL	Cynllun Rheoli'r AHNE
PWRPAS	Ystyried y penodau drafft
AWDUR	Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr Wybodaeth

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Cyflwynir yr adroddiad hon i aelodau'r Cydbwyllgor Ymgynghorol er darparu diweddariad ar y gwaith o adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE.
- 1.2 Yn sgil Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 gosodwyd cyfrifoldeb statudol ar Gyngor Gwynedd, fel Awdurdod perthnasol, i baratoi cynllun rheoli ar gyfer yr AHNE ac i adolygu'r cynllun hwnnw bob 5 mlynedd.
- 1.3 Mae gan Cydbwyllgor Ymgynghorol yr AHNE rôl bwysig mewn cynorthwyo i baratoi'r Cynllun Rheoli drwy roi sylwadau ac awgrymiadau.

2.0 RHAN 1 O'R CYNLLUN RHEOLI

- 2.1 Mae Rhan 1 o'r Cynllun diwygiedig eisoes wedi ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor am sylwadau.

3.0 RHAN 2

- 3.1 Mae'r Gwasanaeth AHNE wedi bod yn gweithio ar Ran 2 y Cynllun. Fel y nodwyd yn flaenorol bwriedir newid ychydig ar ddull Rhan 2 ar gyfer y Cynllun hwn gan greu rhannau/ penodau yn delio gyda gwahanol nodweddion (yn hytrach na gosod popeth gydia'i gilydd mewn un rhan fel yn y cynllun presennol). Hefyd bydd gwybodaeth gefndirol mewn dogfen atodol er gwneud y Cynllun yn haws i'w ddarllen a'i ddilyn.
- 3.2 Bydd pob pennod yn cynnwys cyflwyniad, dadansoddiad o'r nodweddion arbennig, pynciau llosg a pholisïau. Bwriedir cynnwys lluniau i adlewyrchu'r materion y cyfeirir atynt a gwneud y Cynllun yn fwy diddorol.
- 3.3 Bydd rhan olaf Rhan 2 yn cynnwys Cynllun Gweithredu, gyda gweithredoedd penodol yr anelir i'w cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun.
- 3.4 Rhoddwyd ystyriaeth i'r nifer o benodau o'r Cynllun mewn cyfarfodydd blaenorol. Ar gyfer y cyfarfod hwn cyflwynir y penodau drafft ar y materion isod

i sylw aelodau'r Cydbwyllgor Ymgynghorol. Mae'r penodau i'w gweld yn yr Atodiad.

- **Amgylchedd glân a Llonyddwch**
- **Bywyd Gwyllt**
- **Gwaith, cynnyrch a sgiliau**
- **Pobol a Chymuned**

3.5 Dyma'r penodau olaf o'r Cynllun drafft i'w hystyried. Y cam nesaf fydd llunio cynllun gweithredu i gyd-fynd gyda'r polisiau a thynnu'r holl ddeunydd at ei gilydd i ffurfio Cynllun Rheoli diwygiedig cyflawn mewn ffurf drafft. Yn dilyn hynny bwriedir cynnal ymgynghoriad cyhoeddus am o leiaf 6 wythnos cyn dychwelyd i'r Cydbwyllgor gyda manylion o'r ymatebion fydd wedi eu derbyn ac argymhellion.

4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 I ystyried y penodau drafft sydd wedi eu hatodi.

4.2 I awgrymu newidiadau neu welliannau lle bernir fod angen hynny.